



YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090

ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk

www.glantaf.cymru

16 Rhagfyr 2022

Annwyl Rieni / Warcheidwaid,

Diwedd tymor - Ar ddiwedd tymor prysur, hoffwn ddiolch yn ddidwyll iawn am eich cefnogaeth, am gwmni gwych ein plant a'n pobl ifanc yn yr ysgol a thalu teyrnged i waith ac ymroddiad ardderchog staff yng Nglantaf. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Pennaeth Cynorthwyol, Mr Dyfrig Rees, sydd wedi bod yn rhan allweddol o fywyd yng Nglantaf fel athro Bioleg, Pennaeth Adran, Pennaeth y Chweched Dosbarth ac fel Pennaeth Cynorthwyol gyda chyfrifoldeb am gwricwlwm ac amserlen, wrth iddo ymddeol ar ddiwedd y tymor. Bydd Mr Rees yn parhau i ddysgu ei ddsbarthiadau arholiad tan tymor y Pasg, ond diolchwn yn ddiffuant iddo am ei arweiniad a'i ymroddiad i gymuned yr ysgol am dros 30 mlynedd! Hefyd yn ymddeol ar ddiwedd y tymor mae Mrs Linda Price, sydd wedi bod yn aelod brwdfrydig o'n tîm Arlwyso ers dros ddegawd. Dymunwn yn dda i Mrs Siwan Lee, Arweinydd Cynnydd a Lles BI 10 a Mrs Aimee Moule, Arweinydd Cynnydd a Lles BI 11 wrth iddynt ddechrau eu cyfnod mamolaeth yn Ionawr. Bydd Mrs Dwynwen Davies (BI 11) a Mr Joel Richards (BI 10) yn ymuno â'r tîm Cynnydd a Lles yn eu habsenoldeb (manyllion cyswllt wedi'u diweddarau ar ein gwefan). Dymunwn hefyd yn dda i Mr Elis P Jones, Ms Sarah Ann Jones, Mr Zach Mutyambizi, Mr Owain Roberts a Mrs Aimee Gilkes wrth iddynt adael y tîm cefnogi dysgu a dechrau swyddi a gyrfaoedd newydd yn 2023. Diolch yn fawr a dymuniadau gorau i'r dyfodol!



Tîm XV 1af a chapteniaid Tom Weekley a Jo Tucker

Llongyfarchiadau: Enillwyr Plât Cenedlaethol – 2021 and 2022! - Pleser o'r mwyaf yw llongyfarch ein tîm XV 1af ar eu buddugoliaeth yn erbyn *Coleg y Cymoedd* yn y Gynghrair Ysgolion a Cholegau Cenedlaethol yr wythnos diwethaf mewn perfformiad safon uchel lle roedd cymeriad, ffitrwydd a sgil y tîm yn amlwg iawn. Llongyfarchiadau hefyd i dimau traws gwlad merched BI7&8 a 9&10 am gipio medalau Aur ym Mhencampwriaethau Cymru a thîm dan18 Pêl Fasedged am gael eu coroni yn Bencampwyr Sir cyn symud i'r rowndiau terfynol yn y Gwanwyn. Gwych llongyfarch Ioan Dixon BI11 hefyd ar ei alwad i ymuno a Thîm XI Ysgolion Cymru yn y Flwyddyn Newydd – ardderchog bawb!

Seremoni Wobrwyo TGAU a Safon Uwch Haf 2022: Mercher 21 Rhagfyr am 2pm – Rydym yn eich gwahodd i'n Seremoni Gwobrwyo TGAU a Safon Uwch i ddathlu canlyniadau myfyrwyr BI11 a BI13 yn Haf 2022. Yng nghwmni Elan Evans, DJ BBC Radio Cymru a chyn ddisgybl Glantaf rydym yn edrych ymlaen at longyfarch yr holl ddisgyblion ar eu llwyddiant a'u gwaith caled.

Apêl Hamperi Nadolig - Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'n Hapêl Hamper Nadolig, lle rydym wedi gallu pacio dros 45 o hamperi i gefnogi teuluoedd lleol. *Diolch yn fawr iawn i chi*

Cyngherddau Nadolig: Capel y Tabernacl, yr Ais, Dydd Iau 22 Rhagfyr am 4.30 ac eto am 6pm - Mae pob tocyn ar gyfer ein Cyngherddau Nadolig wedi eu gwerthu, ac rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i'r perfformiadau. Rydym wedi anfon cyfarwyddiadau ar gyfer yr holl ddisgyblion hynny sy'n cymryd rhan yn y cyngherdd ar wahân. Hoffem eich hysbysu y byddwn yn casglu ar gyfer yr elusen *Oasis*, yn ystod y gyngerdd. Gan fod y cyngherddau hyn yn llawn, gofynnwn yn garedig i chi ddangos



Pacio hamperi Nadolig

derbyneb eich archeb drwy ParentPay wrth y drws. Bydd y criw o ddisgyblion BI7 sy'n cystadlu yn nhwrnament 7 bob ochr *Cwpan Malcolm Thomas* ym Mharc yr Arfau yn cael eu tywys i'r Tabernacl ar ôl y gemau, gan obeithio bydd eu lleisiau'n llawen ar gyfer y gyngerdd!

Cyngerdd Nadolig @CanolfanGlantaf - Cynhelir Cyngerdd Nadolig y Ganolfan fore Gwener, 23 Rhagfyr am 10.30am ac edrychwn ymlaen at ddathliad arbennig yng nghwmni rhieni a chefnogwyr y Ganolfan. Mae'n hyfryd hefyd sôn am galendr adfent Makaton yr ŵyl sydd ar gyfrif trydar y Ganolfan - trîit go iawn wrth i ni ddysgu ychydig o eirfa Nadolig gyda'n gilydd - rwy'n credu y byddwch i gyd yn cytuno ei bod yn werth ymweliad! [Calendr Adfent Makaton: Diwrnod 14 - Seren Makaton Advent Calendar: Day 14 - Star - YouTube](#)

Ffon felys (Candy Canes) gan y Senedd ysgol - Bydd cyfle i ddisgyblion (a staff) brynu ac anfon Ffon Felys Nadoligaidd (50c) fel anrheg at berson yng Nglantaf er mwyn rhannu llawenydd yr ŵyl ar ddiwedd tymor. Bydd Aelodau'r Senedd yn casglu archebion yn ystod egwyl a chinio ar Llun a Mawrth ac fe fydd y losin yn cael eu dosbarthu gan y corachod cyn diwedd y tymor! Bydd yr holl elw yn mynd at elusennau y Senedd sef, *Oasis a 2wish*.

Diogelwch beiciau a diogelwch ar yr heol - Yn anffodus, cafodd 2 feic eu dwyn o'r ysgol dros y penwythnos wrth i ddisgyblion adael eu beiciau dros nos. Rydym yn atgoffa pawb fod beiciau sy'n cael eu gadael ar flaen neu ffens yr ysgol yn risg mawr, ac rydym yn argymhell yn gryf i fyfyrwyr gloi eu beiciau yn yr iard mewnol sy'n ddiogel iawn. Gobeithiwn hefyd y bydd *Sion Corn* yn cynnig helmedau i'r lleiafrif sylweddol o ddisgyblion sy'n beicio i'r ysgol heb wisgo helmed diogelwch!


Holiadur Rhieni: [Holiadur rhieni / Parents questionnaire 2022 \(google.com\)](#) Dyma'r alwad olaf i lenwi ein Holiadur gan y byddwn yn cau'r arolwg yr wythnos nesaf gan ddiolch i'r 350 o deuluoedd sydd eisoes wedi rhannu eu barn.

Dechrau Tymor y Gwanwyn 2023 - Mae tymor y gwanwyn yn cychwyn i ddisgyblion ddydd Mawrth 10 Ionawr 2023 (gyda dydd Llun 9 Ionawr yn HMS ysgol). Dyma atgoffa o ddiwyddiadau yn Ionawr:

17 Ionawr	Adroddiad Interim a chanlyniadau ffug-broffion BI 11-13
19 Ionawr	Canlyniadau TGAU Rhifedd BI 11 (am)
19 Ionawr	Noson Rien BI 11 (yn yr ysgol 3.15-6.30pm)
23- 25 Ion	Ymweliad preswyl BI 9 grwp Awyr Agored i Storey Arms
26 Ionawr	Arholiad Ymarferol Gwyddoniaeth BI11
2 Chwefror	Noson Rien BI 13 (yn yr ysgol 3.15-6.30pm)

Diwedd tymor: Gwener 23 Rhagfyr 2022: Bydd yr ysgol yn cau am 1.15pm ddydd Gwener 23 Rhagfyr a byddwn yn croesawu pob disgybl yn ôl i'r ysgol ddydd Mawrth 10 Ionawr (wythnos 2). Bydd dydd Gwener olaf yn ddydd gwisg anffurfiol ple gall disgyblion wisgo ar thema Nadolig os ydynt yn dymuno. Rydym yn gobeithio cynnal ein gwasanaethau diwedd tymor yn Eglwys yr Holl Saint gyferbyn a'r ysgol, yn ystod sesiwn y bore. Ymddiheuriadau am y toriad yn y cyswllt yn ystod Noson Rien BI9 drwy *SchoolCloud*, gan obeithio nad oedd wedi tarfu yn ormodol. Yn olaf, byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiadau Interim ar gyfer BI 7-10 ddydd Mercher yr wythnos nesaf. Gan mai dyma ein cylchlythyr olaf y tymor hwn, hoffem anfon ein dymuniadau gorau atoch dros yr ŵyl wrth i ni edrych ymlaen at weithio gyda chi mewn partneriaeth agos yn 2023!

Yn gywir,



Matthew H T Evans

Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



Pencampwyr Sir dan18 Pêl Fasged